Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust

Cadw

Dewch i Wirfoddoli gydag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Barics Pen y Bryn, Dyffryn Nantlle
Gorffennaf 2019

Fuasech chi'n hoffi cymryd rhan mewn cloddio, clirio a chofnodi Barics Chwarel Pen y Bryn, rhan o safle enwebwyd yn Safle Treftadaeth y Byd?

Yr haf hwn, mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd yn awyddus i recriwtio gwirfoddolwyr sy'n barod i'n helpu ni gyda'n gwaith yn Barics Chwarel Pen y Bryn, Dyffryn Nantlle.

Mae'r safle yn cynnwys bloc o bedwar barics a nodweddion cysylltiedig eraill – addasiadau wnaethpwyd yn yr 1860au i adeilad yr ail-ganrif-ar-bymtheg. Nod y prosiect hwn fydd cynnig gwell dealltwriaeth o gyfnodau a datblygiad y barics. Bydd cloddiad yn ceisio sicrhau tystiolaeth o'r gweithgareddau fu'n digwydd yma, a chynnig tystiolaeth o ddiwylliant materol y chwarelwyr a'u teuluoedd.

Mae lleoedd yn brin felly dylai'r sawl sydd yn awyddus i gymryd rhan gysylltu cyn gynted â phosib. Byddwyn yn cynnig hyfforddiant llawn i'r rhai fydd yn ymuno.

Mae lleoedd ar gael ar y dyddiadau canlynol:

Mercher Gorffennaf 3ydd – Gwener Gorffennaf 5ed
Llun Gorffennaf 8fed – Gwener Gorffennaf 12fed
Llun Gorffennaf 15fed – Gwener Gorffennaf 19eg
Llun Gorffennaf 22ain – Mawrth Gorffennaf 23ain
Amseroedd ar gyfer pob dydd: 10:00am – 4:00pm

Hefyd, fel rhan o'r Ŵyl Archaeolegol, cynhelir diwrnod agored i'r cyhoedd dydd Sul Gorffennaf 21ain pryd byddwn yn cynnig teithiau tywysedig o amgylch y safle. Hefyd bydd Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd yn gwahodd ysgolion lleol, ynghyd â'r Clwb Archaeolegwyr Ifanc i ddod i'n helpu ni gyda'n gwaith ar y safle.

Os ydych yn awyddus i gymryd rhan, cysylltwch â dan.amor@heneb.co.uk 01248 366970
Am unrhyw ymholiad gan y wasg, cysylltwch â dan.amor@heneb.co.uk 01248 366970